| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Ebrill 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd /Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Risg ac Asedau** |

**Teitl: Polisi a Rhaglen Torri Glaswellt Ymylon Priffyrdd 2014/15**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Archwilio polisi a rhaglen torri glaswellt y Cyngor ar gyfer y tymor sydd i ddod.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am y paratoadau ar gyfer rhaglen torri glaswellt priffyrdd eleni, gan gynnwys asesiad o'r ymgynghoriad sydd wedi digwydd gyda budd-ddeiliaid ers hydref 2013.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n cytuno bod paratoadau ar gyfer tymor 2014 ar waith a bod pryderon ynghylch elfennau bioamrywiaeth y drefn o dorri wedi cael eu hasesu a'u hymgorffori fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Trefn Torri Glaswellt

4.1.1 Yn dilyn ailstrwythuro'r adran yn 2013, mae darparu'r holl waith torri glaswellt yn dod o fewn cylch gorchwyl yr Adran Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwahaniaeth sylfaenol yn parhau rhwng y dull a geir wrth reoli ymylon ffyrdd trefol a gwledig. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chyfrifoldebau ardal wledig yn unig. Er bod torri glaswellt ymylon ffyrdd gwledig yn cael ei hybu gan ystyriaethau diogelwch, mae hwn wedi bod yn destun llawer o drafodaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried bioamrywiaeth ac felly ceisio torri cyn lleied ag y bo modd. Canfyddiad rhan sylweddol o'r cyhoedd yw y dylem dorri'r holl ymylon ffyrdd. Mae ceisio cydbwyso'r safbwyntiau gwrthwynebus hyn wedi bod yn anodd.

4.1.2 O ganlyniad, ar ôl llawer o drafod, penderfynwyd y byddai trefn yn cael ei mabwysiadu lle: -

Ar y toriad cyntaf byddai llai o driniaeth ar ffyrdd gwledig o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) fel y byddai lefel foddhaol o ddiogelwch yn cael ei sicrhau.

Mewn mannau eraill, byddem yn torri darn eang 1 metr unffurf gyda thriniaeth ehangach mewn ardaloedd eraill (cyffyrdd, lleiniau gwelededd ac ati) er mwyn sicrhau nad yw gwelededd yn cael ei gyfaddawdu.

4.1.3 Dros gyfnod yr Hydref/Gaeaf, mae nifer o ymgynghoriadau wedi cael eu cynnal, gan gynnwys cyfarfod rhwng Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd a chynrychiolwyr o grwpiau bioamrywiaeth lleol. Yn ogystal, anfonwyd llythyr at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Ionawr yn gofyn am eu barn ynghylch sut y gallwn newid y drefn yn eu hardaloedd i gyd-fynd â gofynion lleol. Mae’r ymatebion a ddaeth i law ynghylch yr ymgynghoriad hwn i’w gweld yn Atodiad A. Lle bynnag y bo'n bosibl, mae’r ceisiadau hyn wedi cael eu hymgorffori yn y contract.

4.1.4 Mae swyddogion bioamrywiaeth a thîm priffyrdd y cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull mwy cydlynol gyda’r mater hwn. Un canlyniad a ddaw o hwn a welir yr haf hwn yw ail-sefydlu nifer o ardaloedd o ddiddordeb arbennig ar draws y rhwydwaith cyfan (nid o fewn yr AHNE yn unig). Bydd yr ardaloedd lleol hyn yn cael eu pennu a byddant yn cael trefn reoli wahanol sy’n fwy addas i ofynion penodol y fflora maent wedi'u cynllunio i ddiogelu.

4.2 Trefniadau Cytundebol ac Adrannol ar gyfer 2014

4.2.1 Rydym yn gwneud dau doriad yn y tymor, un yn dechrau yng nghanol mis Mai, rydym yn anelu at ei gwblhau erbyn canol mis Gorffennaf, a’r ail yn dechrau yn gynnar ym mis Awst i’w gwblhau ym mis Hydref. Nid yw dyddiadau penodol y toriad wedi’u penderfynu eto gan eu bod yn dibynnu ar y tywydd yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, ond bydd problemau’r gwaith torri 'cynnar' a oedd yn amlwg yn 2013 yn cael eu hosgoi

4.2.2 Eleni yw blwyddyn olaf contract tair blynedd ac mae cyfarfod wedi’i drefnu gyda'r contractwr 21 Mawrth 2014 i gwblhau'r trefniadau. Gellir rhoi adborth llafar ar ganlyniad hyn yn y cyfarfod Archwilio. Mae hefyd yn werth nodi ein bod wedi diwygio rhai o'r atodlenni i adlewyrchu'r angen ar gyfer peiriannau llai, a lle bo'n briodol, strimio, fel bod y defnydd o offer yn fwy priodol i'r lleoliad. Mae llawer o'r newidiadau hyn o ganlyniad uniongyrchol i sylwadau a wnaed gan y contractwr olaf.

4.2.3 Cyfrifoldeb y Cydlynwyr Strydwedd fydd rheolaeth o ddydd i ddydd y gwaith, a dylai cyswllt agos rhyngddyn nhw a'r gweithwyr yn eu hardal arwain at osgoi llawer o faterion problemus y gorffennol. Er bod cyfathrebu gyda'r contractwr wedi bod yn dda o ran lleoliad o ddydd i ddydd, bydd hyn hefyd yn cael ei wella.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'n flaenoriaeth i'r Cyngor y bydd trigolion ac ymwelwyr i Sir Ddinbych yn cael mynediad at rwydwaith ffyrdd diogel wedi'i reoli'n dda ac mae torri glaswellt ymylon ffyrdd yn agwedd sylfaenol.

## 6. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Bydd costau'r newidiadau yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau presennol.

6.2 Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth wrth baratoi'r rhaglen a datblygu prosesau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

## 7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

Yn dilyn ymgynghori, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r rhaglen torri glaswellt ymylon ffyrdd, ond ni fydd y rhain yn cael effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig.

## 8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

8.1 Mae adborth gan gwsmeriaid a Gwasanaethau Cwsmeriaid ynglŷn â nifer a'r math o gwynion wedi bod yn ddefnyddiol o ran datblygu newidiadau i'r rhaglen.

8.2 Mae ymgynghori ag Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned wedi galluogi gwerthusiad llawn o'r drefn dorri er ei fod yn parhau i fod yr un fath mewn gwirionedd o ran maint ac amseriad y ddau doriad.

8.3 Mae trafod ac ymgysylltu â phartïon â diddordeb gan gynnwys Gwasanaethau Cefn Gwlad yn parhau.

## 9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Priffyrdd 1980

Mae erthyglau 6.3.1(c) yn amlinellu pwerau archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Risg ac Asedau
Rhif Ffôn: 01824 706875